# MORGAN, THOMAS OWEN (1799 - 1878), bargyfreithiwr ac awdur



**Enw:** Thomas Owen Morgan
**Dyddiad geni:** 1799
**Dyddiad marw:** 1878
**Rhiant:** Thomas Morgan
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** bargyfreithiwr ac awdur
**Maes gweithgaredd:** Cyfraith; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** William Llewelyn Davies

mab Thomas Morgan. Pan ffurfiwyd y Powysland Club yn 1867 dewiswyd Morgan yn gyd-ysgrifennydd â Morris Charles Jones. Yr oedd hefyd yn aelod o Gymdeithas Hynafiaethol Cymru, a cheir erthyglau ganddo yn *Archæologia Cambrensis*, 1851, 1854, 1856, ac 1867 ('History of the Lordship of Cyfeiliog ' yn un o ddwy sydd yn *Archæologia Cambrensis*, 1867). Cofir ef yn bennaf oherwydd ei *A New Guide to Aberystwyth*, 1848 (arg. eraill yn 1851, 1859, 1867, 1869, 1870); *A New Guide to Aberdovey ... Towyn, Machynlleth*, 1854 (ac 1863); a *The Aberdovey Guide*, 1863. Efe, y mae'n bosibl, ydyw awdur *A Chronological Summary of the Chief Events in the History of the Castle of Aberystwyth*, llyfryn bychan y cafwyd llawer o argraffiadau ohono. Cyhoeddodd yn 1849 *Flora Cereticae Superioris: a catalogue of plants indigenous in the neighbourhood of Aberystwyth*. Etholwyd ef yn faer Aberystwyth yn 1862 a thrachefn yn 1863; yr oedd hefyd yn ddirprwy-raglaw yn Sir Aberteifi. Bu farw 5 Rhagfyr 1878 yn ei gartref yn Goginan gerllaw Aberystwyth, yn 79 oed.

## Awdur

**Syr William Llewelyn Davies**, (1887 - 1952)

## Ffynonellau

G. Eyre Evans, *Aberystwyth and its Court Leet* (Aberystwyth 1902) (darlun o T.O.M. yn hwn)

*Bye-Gones, relating to Wales and the Border Counties*, 1878, 143

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734513

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu